OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

## Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

PROSPECTIVE

## RHAN 8

### Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar

**Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - darparwyr awdurdodau lleol**

**34.** Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth yn addas, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 34 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

**Digonolrwydd cyfleusterau**

**35.** Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—

(a) goruchwylio staff, a

(b) storio cofnodion yn ddiogel.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 35 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

**Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - rhieni maeth**

**36.**—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth ar gyfer darparu gofal a chymorth i blant—

(a) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato,

(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel,

(c) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, a

(d) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato.

(2) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu hyfforddi'n briodol ynghylch sut i weithredu unrhyw gyfarpar y maent yn ei ddefnyddio wrth ddarparu gofal a chymorth i blentyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 36 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, RHAN 8.